

“Pe gallwn, mi luniwn lythyr”: ymdriniaeth feirniadol â
gwaith Menna Elfyn trwy ohebiaeth ffuglenol.’

Rhiannon Marks

Traethawd ymchwil a gyflwynir ar gyfer gradd PhD

Prifysgol Aberystwyth

2011

Adran y Gymraeg

Cynnwys

| | |
|---------------------|-----|
| Crynodeb | 3 |
| Datganiadau | 4 |
| Diolchiadau | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Yr Ohebiaeth | 24 |
| Ôl-Nodyn | 228 |
| Atodiad..... | 234 |
| Llyfryddiaeth | 249 |

Crynodeb

Eir ati yn y traethawd hwn i gynnig dehongliad o waith Menna Elfyn (1951-) gan ddefnyddio dull beirniadaeth epistolaidd. Cyfres o lythyrau ffuglenol at y bardd ac at ohebwraig ddychmygol ifanc o'r enw Martha a geir yma, sy'n darlunio sut y mae'r broses o ddarllen y farddoniaeth yn datblygu dros gyfnod o amser. Bwriad ategol yw herio arferion traethawd academiaidd trwy gyfuno llais beirniadol a llais creadigol er mwyn creu beirniadaeth aml-leisiog sy'n adlewyrchu natur gymhleth ac amlweddog y broses ddarllen.

Cychwynnir gyda llythyrau sy'n cynnig hyfforddiant i Martha mewn theorïau beirniadol, trwy ddadansoddi cerdd benodol o sawl safbwynt. Yn ogystal â thrafodaeth ar gerddi unigol y bardd mewn llythyrau, ceir darnau academiaidd mwy confensiynol yn dadansoddi ei gwaith yn thematig, lle y canolbwyntir yn benodol ar 'lais y fam' a 'phrotest'. Ceir trafodaeth hefyd ar oblygiadau perfformio a chyfieithu testunau ynghyd â'r modd y caiff llên ei marchnata yn y Gymru gyfoes.

Datganiadau

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae **gwasanaethau cywiro*** wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn.

Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

[* Mae hwn yn cyfeirio at i ba raddau y cywiriwyd y testun gan bobol eraill]

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun-gopiö ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Diolchiadau

Rhaid diolch yn y lle cyntaf i Brifysgol Aberystwyth am ddyfarnu imi Ysgoloriaeth Ymchwil Uwchraddedig (APRS), ynghyd ag Ysgoloriaeth Mair Waldo, a'm galluogodd i ganolbwyntio'n llawn amser ar gwblhau'r traethawd ymchwil hwn.

Mawr yw fy nyled i Dr T. Robin Chapman a'r Athro Marged Haycock. Diolch o waelod calon iddynt am fy rhoi ar ben ffordd, am gynnig sylwadau craff a chyngor doeth, ac am fod mor amyneddgar wrth ateb fy nghwestiynau dirifedi ar hyd y daith.

Diolchaf hefyd i'm teulu a'm ffrindiau am eu cefnogaeth barod. Diolch yn arbennig i'm tad, Tom, ac i'm cariad, Iwan, am fwrw golwg dros y traethawd, ac i Mam ac Eleri am eu hanogaeth, ac am gynnig prynu stampiau.

Y Cyflwyniad

Annwyl Ddarllenydd,

Dywed Salman Rushdie fod creu testun fel taflu llyfr i'r awyr — does wybod ble y bydd yn glanio na beth fydd ei dynged. Bydd rhywun yn gobeithio'r gorau wrth ei ollwng i'r byd mawr ond eto, ni ellir bod yn sicr o ddim — ‘you’ve done what you can and you’ve set it afloat. Now it’s up to it to sink or swim.’¹

Rhyw deimlad felly sydd gen i wrth gychwyn hyn o draethawd am ddarllen Menna Elfyn. Wn i ddim ble yn union bydd y tudalennau hyn yn cyrraedd na chwaith pwy a fydd yn cydio ynddynt ac yn eu dehongli maes o law. Wn i ddim pwy ydych chi, ddarllenydd, ond gallaf fentro dweud ychydig am ba fath o ddarllenydd y gallech chi fod.

Mewn cyfres o lythyrau dychmygol at Menna Elfyn, y darllenydd ffuglenol wrth reswm yw'r bardd ei hun, ac efallai fod Menna ei hun newydd agor y cloriau hyn. Os felly, dyma ofyn yn garedig ichi gofio, Menna, mai creadigaeth fy nychymyg a'm chwilfrydedd ydych chi yma. Gyda phob parch, dyfais yw'r ‘Menna’ hon: cyfrwng imi ofyn y cwestiynau hynny sy'n corddi ym meddwl rhywun wrth ddarllen ond sydd gan amlaf yn cael eu hanwybyddu fel rhai amherthnasol, annheilwng bron. Mae'n fwy tebygol eich bod chi yn arholwr imi, ac felly'n ddarllenydd empeiraidd ar fy nhraethawd — hynny yw, y sawl y bwriadwyd y gyfrol hon ar ei ch/gyfer yn swyddogol. Gallaf fentro cymryd ambell beth yn ganiataol felly yn eich achos chi: bod Menna Elfyn yn enw cyfarwydd ichi; eich bod wedi darllen rhywfaint o'i gwaith a bod gennych ryw agwedd tuag ato; y byddwch, wrth gloriannu'r gwaith hwn, yn ceisio cydbwysedd rhwng canllawiau rheoliadau'r radd a'r rhyddid y gellir yn gyfiawn ei ganiatáu i'r ymgeisydd o ran dulliau gwaith. Mae lle da i dybio hefyd eich bod yn hŷn na mi a bod cylchoedd ein darllen yn gorgyffwrdd i'r graddau ein bod yn gyfrannog o'r un diwylliant neu'r un diwylliannau llenyddol. Ac fel etifedd yr un gynhysgaeth ddiwylliannol, byddwch wedi dod i gasgliadau mwy neu lai pleidiol ynglŷn â darlleniadau amgen.

Wrth ddychmygu fy narllenwyr fel hyn, ofnaf fy mod yn ymdebygu i Lewis Morris ar ddiwedd ei *Tlysau yr Hen Oesoedd* yn 1735, a ddychmyga ei ddarllenwyr yntau: ‘... yn wŷr a Gwrâgedd mwynion, Diduedd, yn Bobl Garedig, Onest, yn

¹ James Fenton, ‘Keeping Up with Salman Rushdie’, *The New York Review of Books*, Vol. 38, 6. March 28, 1991. Hefyd i'w gael ar <http://www.nybooks.com/articles/archives/1991/mar/28/keeping-up-with-salman-rushdie/> t. 4. Cyrchwyd 10/3/2009.

Ewyllysgar i bawb gael rhan o'r Byd yn Gystal a hwythau, yn Caru eu Hiaith au Gwlad, a choffadwriaeth am eu Teidiau au Gweithredoedd Ardderchog.' Rhaid pwysleisio er hynny nad 'Er mwyn y rheini (ag i rheini yn Unig) y Cymerais y boen hon arnaf'!

Wedi dweud hynny, efallai mai un a gydiodd yn y gyfrol hon gan ddisgwyl rhywbeth arall ydych, a'ch bod yn gofyn, 'Beth yn y byd wnaeth iti benderfynu creu llythyrau dychmygol at Menna Elfyn?' Rwy'n eich dychmygu yn hanner ystyried cau'r cloriau yn awr, wrth sylweddoli mai camgymeriad oedd eu hagog yn y lle cyntaf. Os felly, dyma gynnig esboniad dros ysgrifennu'r fath draethawd ymddangosiadol fisâr yn y gobaith y gallaf eich perswadio i barhau gyda mi ar hyn o daith.

Wel, rhaid addef nad oeddwn wedi dychmygu mentro i fyd gohebu dychmygol pan ddechreuais ar hynt fy ymchwil. Fy mwriad bryd hynny oedd astudio barddoniaeth gyfoes Gymraeg gan fenywod a chynnig dehongliad o'r hunaniaeth a amlygir yn eu gwaith. Yn sgil darllen llyfr dylanwadol Montefiore,² a barn Simon Brooks mai '[y] peth mwyaf trawiadol am feirniadaeth lenyddol ffeminyddol hyd at ddechrau'r 1990au yw cyn lleied ohoni sydd ar gael',³ roeddwn yn chwilfrydig ynghylch y berthynas rhwng ffeminyddiaeth a barddoniaeth ac yn awyddus i ystyried y cysyniad o 'fardd ffeminyddol' yng nghyswllt llenyddiaeth Gymraeg. Yn anad dim, roeddwn am ddarganfod i ba raddau y treiddiodd bwrlwm ail-don ffeminyddol y 1970au a'r syniadaethau yr esgorwyd arnynt ym Mhrydain, ar gyfandir Ewrop, yn yr Unol Daleithiau a thu hwnt, i farddoniaeth Gymraeg gan fenywod yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif ac ar droad yr unfed ganrif ar hugain.

Sut bynnag, wrth dwrio'n aflwyddiannus mewn nifer o gylchgronau a blodeugerddi dechreuais bryderu mai bodau prin oedd beirdd 'ffeminyddol' *per se* yn y Gymraeg. Wedi ailfeddwl ac ailystyried deuthum i sylweddoli mai'r diffyg oedd fy null i o ddynesu at destun. Hanner disgwyliwn i gerddi neidio allan yn datgan negeseuon 'ffeminyddol' ac y gellid wedyn gyfosod y testunau llenyddol yn dwt gyda theorïau yn un cyfanwaith rhesymegol. Yn ddelfrydol byddwn yn canfod fod patrwm a datblygiad i'r farddoniaeth a oedd yn cyd-fynd yn gronolegol â datblygiadau syniadaeth ffeminyddol. Ond fel y darganfûm, roedd realiti 'ymchwil' yn wahanol iawn ac yn fwy cymhleth o lawer na'r delfryd a oedd gen i ohono.

² Jan Montefiore, *Feminism and Poetry* (London: Pandora Press, 1987).

³ Gweler Simon Brooks, *Dan Lygaid y Gestapo* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004), t. 175.

I ddechrau, roedd angen ailystyried goblygiadau'r berthynas rhwng 'theori', 'hanes' a 'llynyddiaeth' a hwyrach y dylwn fod wedi ystyried geiriau doeth Ralph Cohen ynghylch hyn o beth dipyn ynghynt:

It should ... be noted that to attempt to connect literary history with theory of the period is to assume that theory and practice are synchronic. But works innovated in a period often have no theory to explain them.⁴

Cefais fy mod, wrth geisio cyfosod y tair elfen, yn tynnu sylw at eu hanallu i oleuo'i gilydd. Dyma bendroni hefyd ynghylch 'ystyr' testun ac ystyried i ba raddau y gellir galw cerdd yn un 'ffeminyddol'. Ai'r bardd piau dweud a yw cerdd yn 'ffeminyddol' ei gogwydd ynteu ai'r darllynydd sy'n darllen cerdd trwy lygaid ffeminyddol ac yn gosod y fath label arni, neu a yw'r ddau yn cyfrannu at y broses o bennu ystyr cerdd? Dyna agor cil y drws ar y berthynas gymhleth rhwng awdur, testun, darllynydd ac amgylchiadau, a dechrau ystyried mai gorchwyl cwbl ofer yw chwilio am Yr Ystyr Derfynol gan ei bod yn gallu newid ar bob darlleniad fel yr honna theorïwyr yn llinach Derrida: 'meaning production is unstable and irreducibly plural, provoking and multiplying undecidability with every reading.'⁵

Dechreuais hefyd amau doethineb y cysyniad o osod 'barddoniaeth gan fenywod' yn gategori i'w ddadansoddi gan fod hyn yn awgrymu, yn gyfeiliornus braidd, fod gwaith y menywod amrywiol yn dod ynghyd yn gyfanwaith unffurf. Mae'n enghraifft o'r hanfodaeth a eilw John Rowlands, yng nghyswllt cenedlaetholdeb 'ordeiniedig', '... yn beryglus o awdurdodol ac adweithiol, ac yn nacáu lluosogedd ac amrywiaeth'.⁶ Trwy osod gwaith gan feirdd o fenywod mewn un dosbarth anwybyddir natur ddyrys hunaniaeth rhywun gan ei fod yn awgrymu, i raddau helaeth, mai wrth eu rhywedd yn unig y mae pennu hunaniaethau'r beirdd am mai dyna sail eu gosod yn y dosbarth yn y lle cyntaf. Yn ogystal, fe awgryma fod gwahaniaeth hanfodol rhwng gwaith beirdd o ddynion a gwaith beirdd o fenywod, fel yr honna Vicki Bertram:

...not only does it collapse differences between women, it also encourages comparison of women poets with men poets, as though there is some fundamental opposition between them.⁷

⁴ Ralph Cohen, 'Genre Theory, Literary History and Historical Change', dyfynnwyd gan Linda S. Kauffman yn 'Epistolary directions', Amanda Gilroy, W.M. Verhoeven (goln.), *Epistolary Histories: Letters, Fiction, Culture* (Virginia: University Press of Virginia, 2000), t. 213.

⁵ Karin Littau, *Theories of Reading* (Cambridge: Polity Press, 2006), t. 108.

⁶ John Rowlands, 'Nofelwyr Cymraeg a'r "Gymru Americanaidd"', *Llên Cymru*, 25 (2002), t. 137.

⁷ Vicki Bertram, *Gendering Poetry: Contemporary Women and Men Poets* (London: Pandora, 2005), t. 20.

Chwiliais felly drwy rai o'r blodeugerddi o farddoniaeth gan fenywod a gyhoeddwyd yn ystod y degawdau diwethaf yng Nghymru a'r tu hwnt, i ganfod cyfiawnhad dros osod gwaith y menywod ynghyd i'w gyhoeddi.⁸ Dro ar ôl tro, tebyg oedd yr amcan, sef 'gwneud iawn am ddiffygion y gorffennol',⁹ a dangos fod i fenywod le yn y traddodiad barddol: 'It is one of the main objectives of this anthology to prove that the tradition is not, and never has been, exclusively male.'¹⁰ Agenda ffeminyddol hanfodaidd oedd y tu ôl iddynt yn anad dim a dyhead i hawlio lle i fenywod o feirdd.

Yn ei hastudiaeth gymharol ddiweddar, gesyd Jo Gill farddoniaeth gan fenywod mewn categori i'w hastudio.¹¹ Cydnebydd berygl creu *ghetto* i farddoniaeth menywod ond cyfiawnha ei hastudio fel cyfangorff drwy ddal bod angen ei gosod ynghyd er mwyn darlunio'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth sydd ynddi:

This volume seeks to recognise heterogeneity and to remain alert to the multiplicity of contexts, experiences and forms evidenced in women's poetry. It looks for areas of common ground which, however narrow and meandering, are shared by women's poetry of different periods, cultures and modes.¹²

Serch hynny, wrth eu cymharu fel hyn, a hynny o dan y fath deitl â *Women's Poetry*, awgryma o hyd fod bardd o fenyw yn wahanol i fardd o ddyn, a bod modd canfod elfennau cymharus mewn barddoniaeth gan fenywod am eu bod hwy'n rhannu'r un rhywedd.

Pwysleisiodd John Rowlands ar ddechrau'r nawdegau fod modd cyfiawnhau'r broses hon o osod gwaith menywod mewn categori ar wahân:

Sawl tro y clywsom haeru mai nonsens yw i ferched ymgasglu'n un haid y tu mewn i ghetto eu blodeugerddi hwy'u hunain? ... Brysied y dydd pan *na* fydd angen i ferched ymgyrchu ar lwyfan ar wahân i ddynion, ond yn y cyfamser ni welaf fod ganddynt ddewis ond cyhoeddi'u harwahanrwydd.¹³

⁸ Jeni Couzyn (gol.), *The Bloodaxe Book of Contemporary Women Poets: Eleven British Writers* (Newcastle: Bloodaxe, 1989); Menna Elfyn (gol.), *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985); Menna Elfyn (gol.), *O'r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Gwasg Honno, 1991); Katie Gramich & Catherine Brennan (goln.), *Welsh Women's Poetry 1460-2001* (Dinas Powys: Gwasg Honno, 2003); Lilian Mohin (gol.), *One Foot on the Mountain: Anthology of British Feminist Poetry, 1969-1979* (London: Onlywomen Press, 1979); Dorothy McMillan & Michel Byrne (goln.), *Modern Scottish Women Poets* (Edinburgh: Canongate, 2003).

⁹ Menna Elfyn (gol.), *Hel Dail Gwyrdd*, t. xvi.

¹⁰ Katie Gramich & Catherine Brennan (goln.), *Welsh Women's Poetry 1460-2001*, t. xvii.

¹¹ Jo Gill, *Women's Poetry* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2007), t. 2.

¹² *Ibid.*, t. 2.

¹³ John Rowlands, 'O'r Iawn Ryw & Cymru yn fy mhen', *Llais Llyfrau* (Haf 1992), tt. 18-19.

Aeth chwarter canrif heibio bellach ers sefydlu Gwasg Honno, y ‘wasg unigryw a oedd yn atebol i anghenion merched Cymru’,¹⁴ ac ers cyhoeddi’r cyfrolau Cymraeg a fu’n chwyldroadol yn eu cyfnod: *Hel Dail Gwyrdd* (1985) a rhifyn arbennig y *Traethodydd* (1986). Yn y cyfamser cyhoeddwyd amryw o flodeugerddi eraill,¹⁵ gwelwyd colofnau penodol ar lenyddiaeth gan ferched ac i ferched mewn ambell gyfnodolyn a chylchgrawn,¹⁶ a datblygwyd nifer o gyrsiau prifysgol ar ‘lenyddiaeth merched’ ac astudiaethau rhywedd. Tybed a ddaeth yr adeg felly i ailystyried yr angen i osod menywod mewn categori ar wahân a ‘chyhoeddi’u harwahanrwydd’?

Mewn darlith gymharol ddiweddar dan y teitl ‘I am not a *woman* writer’,¹⁷ cyhoeddodd Toril Moi, fod dirfawr angen symud oddi wrth y pwyslais cyson a roddir ar rywedd awdur, gan awgrymu bod angen datblygu disgyrsiau ffeminyddol newydd. ‘Is it always in the feminist interest to read women writers as *women* writers?’ holodd. Er na fentra ddweud i ba gyfeiriad y gellid mynd â disgyrsiau o’r fath, pwysleisia fod gwir angen ailasesu’r modd yr ystyriwyd rhywedd yn y gorffennol a chreu disgyrsiau newydd a fyddai’n cyd-fynd yn well â’r oes sydd ohoni. Yn hytrach na rhygnu ymlaen i ddilyn cwys hanfodaidd ei sail, felly, awgrymodd y dylid arbrofi â dull newydd o ddarllen.

Yng nghyswllt llenyddiaeth Gymraeg, ac yn arbennig ei barddoniaeth, dechreuais dybio ei bod hi’n hen bryd ailystyried goblygiadau ‘bod yn fardd o fenyw’,¹⁸ chwedl Menna Elfyn. Er i ‘The Woman Poet’ fod yn destun cerdd gan Hilary Llewellyn-Williams,¹⁹ dechreuais bendroni a oedd hi’n bodoli mewn gwirionedd ynteu ai myth neu gymeriad chwedlonol o fath oedd y cysyniad o ‘fardd benywaidd’ neu ‘farddones’?²⁰ Wedi’r cyfan, clywais lu o ragdybiaethau ynghylch canu gan fenywod: er enghraifft, bod ganddynt obsesiwn ag ysgrifennu am eu cyrff neu fod eu gwaith yn llawn emosiwn ac yn ‘hysterical, melancholy, solipsistic and technically inferior,’ fel y

¹⁴ Leigh Verrill-Rhys, ‘Y Wasg i Fenywod yng Nghymru’, *Llais Llyfrau* (Haf 1992), tt. 6-7.

¹⁵ Menna Elfyn (gol) *O’r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Gwasg Honno, 1991); Cathryn A. Charnell-White, *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas 2005).

¹⁶ Gweler, er enghraifft, ‘Briwsion y Beirdd’ tan olygyddiaeth Menna Elfyn yn *Pais* o Fawrth 1982 ymlaen.

¹⁷ Gweler <http://www.tate.org.uk/modern/eventseducation/talksdiscussions/10140.htm>, cyrchwyd 17/4/2008.

¹⁸ Menna Elfyn, ‘Dwy gerdd — un ddelwedd’, *Aderyn Bach Mewn Llaw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1990), t. 128-9.

¹⁹ Hilary Llewellyn-Williams, ‘The Woman Poet’, yn Gramich a Brennan (goln.), *Welsh Women’s Poetry*, t. 314-5.

²⁰ ‘Barddones’ yw’r term a gynigir gan *Geiriadur yr Academi*. Defnyddir ‘prydyddes’ gan Cathryn Charnell-White, yn *Beirdd Ceridwen*.

dywed Jane Dowson.²¹ Ond tybed ai mythau wedi eu creu gan ddynion a chan ferched eu hunain sy'n andwyo delwedd bardd o fenyw yw'r fath honiadau?

Canlyniad fy anfodlonrwydd â rhyw fel hanfod oedd amau dadansoddiadau hanfodaidd o bob math, nid yn unig am fy mod yn eu cael yn annigonol ond am eu bod, ar lefel fwy gwaelodol, yn anfodhaol. Er mor ddadlennol y gallant fod, nid oedd darllen testunau fel cynnyrch dosbarth cymdeithasol, hil, rhywioldeb neu fel adlewyrchiad o gyfnod neu gyflwr gwleidyddol, gan gorlannu llenorion a gweithiau, yn cyfleu cymhlethdod fy mhrofiad i fel darlennydd.

Yn y pen draw, deuthum i'r casgliad mai'r peth gorau fyddai canolbwyntio ar waith un fenyw yn benodol a'i astudio'n drylwyr er mwyn dadansoddi i ba raddau y mae rhywedd bardd yn effeithio ar farddoniaeth a gynhyrchir ganddi. Y dewis amlwg i mi oedd Menna Elfyn: yn rhannol am fy mod yn cael blas ar ddarllen ei gwaith ond hefyd am mai ei gwaith hi, yn anad gwaith unrhyw fenyw arall, a gynigiai fwyaf o gyfle i ymchwilio i'r berthynas amlweddol hon rhwng rhywedd a barddoniaeth a'm hymateb iddi fel menyw fy hunan. Wedi'r cyfan, fe'i cysylltir yn aml, yn gam neu'n gymwys, â ffeminyddiaeth,²² pa beth bynnag yw'r term ymbarél amwys hwnnw — *ffeminyddiaethau* sy'n gyffredin bellach —²³ yng Nghymru ac fe'i cyfrifir yn genhades ysgrifennu 'benywaidd'. Fe'i henwyd yn 'Wales's best known feminist poet',²⁴ ac fe ddywedodd Ceridwen Lloyd-Morgan amdani:

Mae'n anodd meddwl am unrhyw fardd arall yn y Gymraeg sydd wedi gwneud cymaint â Menna Elfyn i gyfleu a dadansoddi profiadau a theimpladau merched.²⁵

Fe'm cymhellwyd gan reswm elfennol arall. Er bod Menna Elfyn yn llenor toreithiog — cyhoeddodd eisoes bum cyfrol Gymraeg,²⁶ casgliad o gerddi a

²¹ Jane Dowson, 'Older Sisters are Very Sobering Things': Contemporary Women Poets and the Female Affiliation Complex', *Feminist Review*, 62 (1999), t.13.

²² Gweler pennod Simon Brooks, 'Ffeminyddiaeth', yn *Dan Lygaid y Gestapo* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004). Sonnir yn benodol am Menna Elfyn o t. 176 ymlaen.

²³ 'It is a mistake to assume that feminist theory — even if united in its opposition to patriarchy — constitutes a unified corpus of concerns', Karin Littau, *Theories of Reading* (Cambridge: Polity Press, 2006), tt 126-7.

Gweler hefyd Sandra Kemp & Judith Squires (goln), *Feminisms* (Oxford: Oxford University Press, 1997). Geilw'r golygyddion eu cyfrol yn *Feminisms* er mwyn pwysleisio nad un mudiad beirniadol homogenaidd yw 'ffeminyddiaeth': 'the diversity within feminism is now well established. The plural of our title (feminisms) reflects both the contemporary diversity of motivation, method, and experience among feminist academics, and feminism's political commitment to diversity — its validation of a multiplicity of approaches, positions, and strategies.' t. 3.

²⁴ T. Gerald Hunter, 'Contemporary Welsh Poetry: 1969-1996', yn Dafydd Johnston (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998), t. 143.

²⁵ Ceridwen Morgan, broliant i gyfrol Menna Elfyn, *Perffaith Nam* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005).

gyfansoddwyd rhwng 1976-1990,²⁷ a phedair cyfrol ddwyieithog²⁸ — ni chafwyd astudiaeth gyfansawdd o gorpws ei gwaith. Do, tynnwyd sylw at y modd yr ymdrinnir â rhywedd yn ei gwaith gan rai fel M.Wynn Thomas²⁹ a Katie Gramich,³⁰ ond, ac eithrio adolygiadau lu mewn cylchgronau a chyfnodolion, pennod Robert Rhys yw'r ymdriniaeth fwyaf estynedig o'i gwaith hyd hyn yn Gymraeg.³¹ Ac amlinelliad digon dilornus ydyw ar y cyfan: er ei fod yn cydnabod fod gan farddoniaeth Menna Elfyn 'ffresni pynciol',³² tynnu sylw at yr hyn a wêl ef yn ddiffygion yn ei gwaith a wna yn anad dim gan ddilorni'r 'farddoneg fenywaidd anghynganeddol'.³³ Mynega amheuaeth gref ai cymwys 'gosod y bardd yn ddidrafferth ymysg rheng flaenaf beirdd Ewrop',³⁴ cyn tynnu sylw (amherthnasol, i'm tyb i) at y ffaith na fu'r bardd yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol, fel petai hynny'n warant o ddiffyg 'safon' ei gwaith llenyddol.

Fy mwriad yn y gwaith a ganlyn yw cloriannu gwaith Menna Elfyn trwy gynnig dehongliad amgen sy'n darlunio'r broses ddarllen. Fel y dywed Susan Noakes: 'there is not just one way to read, [...] reading (whether one recognizes it or not) is always a process of investigating and making choices'.³⁵ Mae cenadwri yn fy ngwaith hefyd, rhaid addef. Honna Noakes fod sylweddoli pwysigrwydd darllen amgen yn fodd i ennill lle mwy canolog i farddoniaeth:

The development of [the] ability to discuss not just what one reads but the *prior* question of how one reads is of capital importance to a culture that wishes to see itself as founded on the effort to reach consensus [...] It follows that if the hermeneutic awareness of the members of a society is carefully cultivated, as they are taught alternative means of making choices in the reading of all sorts of verbal structures from

²⁶ *Mwyara* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), *Stafelloedd Aros* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1977), *Tro'r Haul Arno* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1982), *Mynd Lawr i'r Nefoedd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985), *Perffaith Nam* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005).

²⁷ *Aderyn bach mewn llaw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1990).

²⁸ *Eucalyptus* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), *Cell Angel* (Tarsset: Bloodaxe, 1996), *Cusan Dyn Dall/Blind Man's Kiss* (Tarsset: Bloodaxe, 2001) a *Perffaith Nam / Perfect Blemish* (Tarsset: Bloodaxe, 2007).

²⁹ M. Wynn Thomas, 'The place of gender in the poetry of Gillian Clarke and Menna Elfyn', *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1999), tt. 186-213.

³⁰ Katie Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

³¹ Robert Rhys, 'Menna Elfyn' yn Robert Rhys (gol.), *Y Patrwm Amryliw: Cyfrol 2* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2006), tt. 234-247.

³² *Ibid.*, t. 245.

³³ *Ibid.*, t. 246.

³⁴ *Ibid.*, t. 234.

³⁵ Susan Noakes, *Timely Reading: Between Exegesis and Interpretation* (London: Cornell University Press, 1988), t. 230.

sonnets to speeches, they will be better able to contribute to the evolution of an enriched consensus. And, perhaps, the poets will no longer find themselves banished to the margins of the republic.³⁶

Trwy dynnu sylw at bosibiliadau darlleniadau amgen, yng nghwrs yr astudiaeth hon, fy ngobaith yw y bydd hyn yn arwain at ailystyried y modd y darllenwyd gwaith gan feirdd megis Menna Elfyn yn y gorffennol. Cam sydd yma, felly, tuag at ddarlleniadau adolygiadol ac adolygol.

Deil Schweickart a Flynn mai cam ymlaen mewn beirniadaeth lenyddol fyddai symud oddi wrth y dull hanfodaidd o ddarllen gwaith gan fenywod a pheidio â chymryd yn ganiataol fod modd dosbarthu gwahaniaethau i un categori llywodraethol bob tro — ‘the master category of gender’.³⁷ Erfyniant ar eu darllenwyr ‘to think not of one general other but of particular others, differentiated, among other things, by race, ethnicity, and class’.³⁸ Trwy archwilio a chymhwyso’r cysyniad hwn, gobeithiaf roi sylw i’r pwyslais ar rywedd yng ngwaith Menna ac awgrymu, o leiaf, fod i wladgarwch, heddychiaeth a gwleidyddiaeth, le’r un mor ddylanwadol yn ei byd-olwg. Wedi’r cyfan, fel y sonia Valentine Cunningham, ‘the much bandied-about category ‘woman’ is itself too impossibly unfitting for the realities of woman-reader varieties (women writers are more than women... they belong to many “writing communities” at once).’³⁹

Ynghyd â hyn, hoffwn dynnu sylw at y cysyniad o ‘werth llenyddol’ am i gerddi Menna Elfyn gael eu gwrthod gan olygyddion *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*.⁴⁰ Ymddengys nad oeddent yn cael eu cyfrif ymhlith y ‘cerddi teilwng’ a’r ‘cerddi gorau’ y chwiliai’r ddau olygydd amdanynt.⁴¹ Fy mwriad yw cwestiynu’r cysyniad hwn o ‘deilyngdod’ a ‘gwerth’ llenyddol, ac awgrymu o bosib nad oes i destun werth cynhenid na chwaith werth terfynol, gan fod y broses o ‘werthuso’ yn oddrychol ac yn cael ei hailadrodd a’i hailasesu’n ddiderfyn. Medd Barbara Herrnstein Smith:

...a work’s value [is] seen not as something already fixed in it and indicated by particular critical judgements but, rather, as numerous different effects continuously produced and sustained by those very evaluative activities and practices themselves.⁴²

³⁶ Ibid., tt 243-4.

³⁷ Schweickart & Flynn, *Reading Sites: Social Difference and Reader Response*, dyfynnwyd yn Karin Littau, *Theories of Reading* (Cambridge: Polity Press, 2006), t. 127.

³⁸ Ibid. t.127.

³⁹ Valentine Cunningham, *Reading After Theory* (Oxford: Blackwell, 2002).

⁴⁰ Gwynn ap Gwilym & Alan Llwyd (gol.), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1987).

⁴¹ Gweler Alan Llwyd, ‘Golygyddol’, *Barddas* 135-7, Gorffennaf/ Awst/ Medi 1988, tt 12-3.

⁴² Barbara Herrnstein Smith, *Critical terms for Literary Study* (London: Chicago Press, 1990), t.181.

Yn anad dim, hoffwn ystyried sut y mae bardd y gwrthodwyd ei gwaith gan rai a gymer arnynt farnu ar ran y gymuned lenyddol Gymraeg, wedi llwyddo er hynny i gael ei hystyried gan eraill fel ‘the best-known, most travelled and most translated of all Welsh-language poets,’ chwedl broliant ei chyfrol ddiweddaraf, *Perffaith Nam / Perfect Blemish*.⁴³

Felly, ddarllenwyd, dyna’r hanes y tu ôl i ddewis Menna Elfyn; ond yn sgil canfod maes ymchwil, y broblem a’ m hwynebai oedd sut i lunio traethawd ymchwil a fyddai’n ei gwneud yn bosibl imi ymdrin â’r elfennau gwasgarog hyn, a hynny mewn ffordd greadigol a ffres. Wrth lwc, cefais ysbrydoliaeth ar y we pan ddeuthum ar draws manylion cyfrol gyffrous a oedd ar y gweill yn yr Unol Daleithiau ar y pryd ond a gyhoeddwyd erbyn hyn sef *Letters to Poets: Conversations about Poetics, Politics and Community*,⁴⁴ lle mae parau o feirdd yn ymateb i gerddi ei gilydd ar ffurf gohebiaeth dros gyfnod o flwyddyn. Yng nghwrs y gohebiaethau trafodir amryw o faterion ynghylch barddoniaeth gan gynnwys rôl gwleidyddiaeth, rhywedd a hil mewn cerddi ynghyd â thrafodaeth ar y broses o farddoni. Y gobaith, chwedl y golygyddion, yw ‘that these letters will spark discussion and offer insight into some of the ongoing urgent conversations in contemporary poetry.’⁴⁵

Apelïai’r cysyniad hwn o ymateb yn bersonol ac yn greadigol i destun llenyddol ar ffurf llythyr ac euthum ati i arbrofi gyda’r *genre* a chreu llythyr dychmygol at Menna Elfyn yn cynnig adwaith creadigol i un o’i cherddi. Er bod fy sefyllfa i fel myfyrwraig ymchwil yn dra gwahanol i feirdd y gyfrol uchod (sydd, er enghraifft, yn cynnal deialog bersonol wrth drafod eu cerddi ac yn rhannu’r profiadau personol a ddaw iddynt wrth gyfansoddi), yr un yw ein gorchwyl sylfaenol, sef pwysleisio ymateb personol i destun llenyddol ar draul unrhyw ymgais i gynnig darlleniad gwrthrychol, safonol, diffiniol neu derfynol. Efallai fod beirdd *Letters to Poets* yn ymateb ar ffurf llythyrau ‘go-iawn’ at ei gilydd gan ddisgwyl ateb y naill oddi wrth y llall, ond yn eu hanfod creadigaethau llenyddol yw eu llythyrau hwy fel fy rhai innau, sy’n cynnig ymateb beirniadol personol i destun a hwnnw’n cydnabod amseroldeb y testun a’r ymateb ill dau, ei gyfyngiadau a’r darlleniadau diderfyn eraill hynny nad ydynt yn cael llais.

Mae hwn yn ddull sy’n gofyn llam dychmygus, nid yn unig gennyf fi, ond gan fy narllenydd. Wedi’r cyfan, mae’r cysyniad o ysgrifennu llythyr dychmygol at berson

⁴³ Menna Elfyn, *Perfect Blemish / Perffaith Nam* (Tarsset: Bloodaxe, 2007).

⁴⁴ J. Firestone & D.T. Lomax (goln.), *Letters to Poets: Conversations about Poetics, Politics and Community* (Philadelphia: Saturnalia, 2008).

⁴⁵ <http://jacketmagazine.com/31/lett-intro.html>, 24/2/2008.

sy'n fyw ond na fydd yn ei dderbyn mewn gwirionedd yn ymddangos yn rhyfedd i ddechrau. Serch hynny, buan y darganfûm fod y ffurf yn cynnig potensial gwych i fynd i gyfeiriadau nad yw traethawd academaidd confensiynol yn eu cynnig. Caniatâ imi fod yn chwareus â thestun ac ar yr un pryd arbrofi gyda ffiniau'r disgwrs a ddisgwylir mewn beirniadaeth lenyddol fel arfer. Rhydd y cyfle i gynnig sawl dehongliad o un gerdd, i fod yn onest ac i fynegi ansicrwydd ynghylch ystyr cerddi, yn ogystal â chyfle i osod darlleniad mewn cyd-destun personol a phenodol. Datgana yn agored yr hyn sy'n wir am bob math o feirniadaeth, hyd yn oed strwythuraeth lem, sef ei bod yn y pen draw yn ddethol ac yn oddrychol.

Rhaid cyfaddef bod fy ngheidwadaeth wedi esgor ar rai amheuon ynghylch y dull hwn o ysgrifennu traethawd ar y cychwyn; ond wrth imi ymchwilio i'r mater canfûm nad oeddwn ar fy mhen fy hun ym myd y llythyru. Bu ffurf y llythyr yn arf beirniadol defnyddiol a phoblogaidd dros y canrifoedd i lenorion draffod pynciau athronyddol a llenyddol. Yn llythyrau enwog Rilke at y bardd ifanc, er enghraifft, defnyddir y ffurf i draffod hanfodion y grefft o lenyddu. Dyna a wnaeth Virginia Woolf hefyd rai degawdau yn ddiweddarach yn ei 'A letter to a young poet' yng nghyfres yr *Hogarth Letters*. Defnyddiwyd y ffurf yn helaeth hefyd mewn gweithiau ffuglenol er mwyn creu cysylltiadau rhwng cymeriadau a'i gilydd, a hynny ar adegau i ddibenion hyfforddi, megis yn y nofel Norwyaidd, *Sofies Verden*.⁴⁶ Gwelwyd y ffurf yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn cyfrolau ffuglenol eu naws megis *Letters to Virginia Woolf* er mwyn gosod darlleniad o waith yr awdures mewn cyd-destun personol.⁴⁷ Rhaid nodi hefyd i Elan Closs Stephens ddefnyddio'r ffurf yn Gymraeg, yn ei 'Llythyr at Ferch Ifanc', lle'r â ati i draffod rôl y ferch yn y gymdeithas.⁴⁸

Serch hynny, yn ddiweddar gwelwyd arbrofi â ffurf y llythyr mewn gweithiau academaidd. Pwysleisia'r awdures Anne Bower ddefnyddioldeb y *genre* mewn astudiaethau beirniadol a honna fod y ffurf yn hyblyg ac yn caniatáu i draffodaeth fynd ar sawl trywydd gwahanol:

A major advantage of the letter form as a mode of personal criticism is its logical way of incorporating elements that so often result from the conditions that shape our lives: class, race, gender, ethnicity, sexual orientation and so on.⁴⁹

⁴⁶ Jostein Gaardner, *Sophie's World: A Novel about the History of Philosophy* (London: Phoenix, 2006), cyfieithwyd i'r Saesneg gan Paulette Møller.

⁴⁷ Lisa Williams, *Letters to Virginia Woolf* (Lanham MD: Hamilton Books, 2005).

⁴⁸ Gweler Elan Closs Stephens, 'Llythyr at Ferch Ifanc', yn Ruth Stephens (gol.), *Asen Adda* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1975), tt. 19-37.

⁴⁹ Anne Bower, *Epistolary Responses* (Tuscaloosa: The University of Alabama Press, 1997), t. 166.

Cynhwysa ei gwaith lythyrau sy'n cyfarch ei darllenwyr yn uniongyrchol gan gyfuno 'the literary, the critical and the personal',⁵⁰ chwedl Sarah Marino. Ei bwriad yn anad dim yw herio disgwrs a strwythur gweithiau academiaidd traddodiadol ac awgryma fod ffurf y llythyr yn caniatáu rhyddid i arbrofi ac i greu disgwrsiau newydd:

In the same way that the letter form provides epistolary characters with a mode of responding to others, with the chance to rewrite themselves and others, criticism in letter form helps us to rewrite our concepts of academic discourse, perhaps even our concepts of the academic institution.⁵¹

Noda Bower fod ymateb personol ar ffurf llythyrau yn fodd i wneud cysylltiadau annisgwyl rhwng darlennydd ac awdur ynghyd â'r sawl sy'n ailddarllen:

At one or more levels — emotional, psychological, political, intellectual — 'lettered' criticism holds the potential to change the writer, the reader, the critical act, and the relationships among them.⁵²

Fe ymetyb Bower felly fel darlennydd ac awdur i waith awdur arall, ac yn eu tro gall rhywrai ddarllen ac ymateb i'w gwaith hithau. Proses debyg fydd ar waith yn y traethawd hwn, gobeithio. Byddaf yn ymateb yn ffuglenol fel darlennydd ac awdur i waith Menna Elfyn, ac yn eich tro byddwch chi, y darlennydd, wrth ddarllen y cyfanwaith, yn gyfrannog yn y ffuglen. Mae'n fodd, gobeithio, o arbrofi gyda'r berthynas amlweddol rhwng yr awdur a'r darlennydd a dangos nad un math o ddarlennydd sy'n bodoli ac nad oes chwaith un darlenniad 'terfynol' yn bod.

Yn wreiddiol, fy mwriad oedd cynnal gohebiaeth ddychmygol gyda Menna Elfyn drwy gydol y gwaith ond canfûm fod i'r syniad hwn ei gyfyngiadau. Yn gyntaf, nid oedd rhai o'r pynciau yr oeddwn am eu trafod yn taro deuddeg wedi eu cynnwys mewn llythyr — hyd yn oed un ffuglenol — wedi ei gyfeirio at y bardd ei hun. Ac yn ail, o safbwynt arddull, roedd hi'n anodd cynnal y drafodaeth ar ei gwaith gan ei ysgrifennu yn yr ail berson, heb i'r llythyrau fynd yn undonog ac yn rhestr o gwestiynau rhethregol. Deuthum i'r casgliad y byddai'n fanteisiol cyflwyno gohebydd arall i'r gwaith oherwydd gellid sôn wedyn am gyd-destun llenyddol barddoniaeth Menna a'i drafod yn y trydydd person mewn ffordd a fyddai hefyd yn argyhoeddi yn ffuglenol.

⁵⁰ Sarah R. Marino, 'Epistolary Responses: The Letter in 20th-Century American Fiction and Criticism', *Modern Fiction Studies*, 43.4 (1997), tt 1007-1009.

⁵¹ Anne Bower, *Epistolary Responses*, t. 8.

⁵² *Ibid.* t. 181.

Penderfynais, gan hynny, greu cymeriad sy'n fyfyrwraig ar ei blwyddyn gyntaf yn y coleg ac sy'n astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg. (Cewch gyfarfod â hi maes o law, ddarllenydd!). Mae ei gyrfa golegol israddedig hi yn cydreddeg yn fras â'm blynyddoedd ymchwil uwchraddedig i, ac felly gellir dilyn trywydd ein datblygiad ni'n dwy fel darllenwyr gwaith Menna.

Fe'i bedyddiais yn Martha: yr un enw â chymeriad ffuglenol Pantycelyn a oheba gyda'i hathro, Philo-Evangelus.⁵³ Yn yr un modd ag y mae Martha Pantycelyn, y darllenydd naïf, yn trafod ei phrofiad personol wrth ddarllen y Beibl ac yn dymuno cael gwybod gan ei hathro a yw ei dehongliad yn ddilys,⁵⁴ felly y mae fy Martha innau yn gofyn cwestiynau ynghylch gwaith Menna Elfyn gan ddisgwyl ateb ac esboniad terfynol ar y testun. Mae fy llythyrau ati yn cynnig cyngor ynghyd â dehongliad, ac ambell ysgytwad i'w rhagdybiau. Hwyrach fod elfen heriol hefyd yn yr adlais hwn o waith Pantycelyn gan fod ei gymeriad, Philo-Evangelus, yn honni nad oedd yn disgwyl trafodaeth ddwys a chyfansawdd mewn llythyr oddi wrth Martha, am ei fod wedi ei sgrifennu gan fenyw!⁵⁵ Hoffaf feddwl fod fy Martha i'n rhoi cyfle imi arfer llais a osgoir o fwriad mewn traethawd PhD lle mae'r ymgeisydd i fod i efelychu disgwrs llywodraethol a derbyniol y sawl sydd ag awdurdod i ddyfarnu'r radd: y llais pedagogaid. Wrth ohebu â Martha, rhaid arafu'r drafodaeth, egluro termau, cyfiawnhau egwyddorion sylfaenol a'u cymhwyso at destunau. Mae'n ddull sy'n gofyn perswadio heb draethu. Nid argyhoeddi Martha yn unig fy mod yn gymwys i fynegi barn (hanfod gradd ymchwil) yw'r amcan ond, ar lefel ddyfnach, fod y farn yn werth ei mynegi. Nid sbwng mohoni a grëwyd i amsugno fy syniadau parod, ond sbardun imi ailfeddwl. Am hynny, dewisais drafod ambell gerdd o sawl safbwynt theoretig ar wahanol adegau gan fod y llais pedagogaid hwn yn seiliedig ar y syniad bod gwybodaeth yn cronni.

⁵³ William Williams Pantycelyn, 'Llythyr Martha Philopur at y Parchedig Philo Evangelus ei Hathro' (1762) ac 'Atteb Philo-Evangelus i Martha Philopur' (1763), yn Garfield H. Hughes (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn - Cyfrol II* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), tt 1-32.

⁵⁴ 'Ac yr wyf, garedicaf athro, yn anfon atoch yr amryw destunau a ddaeth i'm cof; ac os oeddwn yn cyfeiliorni yn yr agoriad ohonynt, neu wrth eu camgymhwyso ataf fy hun neu eraill, atolwg symudwch fy anwybodaeth ymaith trwy ddanfôn ataf eu gwir gymwys agoriad.' Garfield Hughes (gol), *Gweithiau Williams Pantycelyn*, t. 5.

⁵⁵ 'Mi dderbyniais eich llythyr, ac nis cefais ynddo ddim yn groes i'r gwirionedd; ei fai mwyaf oedd bod yn fyr o agoriad yr amryw destunau hynny o'r ysgrythur, a diffyg rhagor o'r fath o'r Testament Newydd. Rhai hanesion eglwysig a rhesymau fuasai yn addas fod ynddo, gan im ei osod ef allan i'r byd; ond am ei fod wedi ei sgrifennu gan fenyw, nis disgwyliais gymaint am y fath bethau.' 'Atteb Philo-Evangelus i Martha Philopur' yn Garfield Hughes (gol), *Gweithiau Williams Pantycelyn*, t. 13.

Trwy gynnwys yr ohebiaeth ddychmygol â Martha yn gyfochrog â'r ohebiaeth ddychmygol â Menna, ynghyd â darnau mwy confensiynol academaidd, fy ngobaith yw caniatáu i ddisgwrs y traethawd amrywio gan amlygu tair agwedd ar fy nghymeriad i fel darlennydd. Yn ôl Janet Gurkin Altman dyma un o rinweddau'r dull epistolaidd:

... epistolary writing, as distinguished from simple first person writing, refracts events through not one but two prisms — that of reader as well as that of writer. We as external readers must always interpret a given letter in light of its intended recipient.⁵⁶

Y prism cyntaf yw'r myfi sy'n gogwyddo rhwng ffuglenoldeb fy rôl fel gohebydd a realiti amwys a chyfnewidiol f'ymateb i Menna Elfyn a Martha. Yn fy llythyrau at Menna amlygir darlennydd sy'n damcaniaethu rhywfaint ynghylch gwaith y bardd gan fynegi amheumon, dryswch ac amhendrantrwydd. Yn y llythyrau at Martha, serch hynny, amlygir darlennydd sy'n fwy pendant ei dehongliad ar y cyfan, a hynny mae'n siŵr am fod y berthynas yn un fwy cyfarwyddiadol ar y cyfan o'm rhan i. Mae gohebu â'r ddwy yn ei gwneud hi'n bosibl imi arfer y ddau lais sy'n cyd-weu trwy'i gilydd mewn disgwrs beirniadol, sef yr ymholgar a'r traethiadol.

Mae'r berthynas bedagogiaidd hon rhyngof i a Martha yn debyg o ran ei natur i llythyrau hyfforddiadol Rilke at y bardd ifanc, Franz Kappus, lle â'r mentor ati i gyngori ei ddisgybl ynghylch goblygiadau bod yn artist er gwaetha'i ansicrwydd fel artist ei hun. Meddai Kent Nerburn:

In the letters to young Franz Kappus, he appropriates this air of authority, which he wears like a mantle over the doubts and insecurities that the letters themselves address. He becomes, at once, the wise and resolved artist he dreams of being, while carrying within himself the visceral knowledge of all the struggles the young artist experiences.⁵⁷

Tebyg yw fy mhrofiad innau a Martha, nid yng nghyd-destun yr 'artist' o reidrwydd, ond yng nghyswllt y broses o ddarllen. Er fy mod yn ymwybodol o gymhlethdod dehongli testun, a amlygir yn fy llythyrau at Menna, ceisiaf wisgo mantell awdurdod wrth arwain rhywun i ddarllen gwaith y bardd o'r newydd.

Mae'n werth nodi'r gwahaniaeth yn y berthynas rym sydd ymhlyg yn y ddwy ohebiaeth: tra bod y llythyrau cychwynnol at Menna yn cyfleu ymdeimlad digamsyniol o israddoldeb o'm rhan i fel darlennydd oherwydd parchedig ofn tuag ati fel awdur, gydag amser datblyga'r berthynas yn un lle y caf innau sefyll ar yr un gwastad

⁵⁶ Janet Gurkin Altman, *Epistolarity: Approaches to a Form* (Columbus: Ohio State University Press, 1982), t. 92.

⁵⁷ Rhagymadrodd Kent Nerburn i Rainer Maria Rilke, *Letters to a Young Poet* (Navato, California: New World Library, 2000), tt. xv-xvi.

deongliadol â hithau. Gyda Martha, fel arall y mae hi. Ar y cychwyn, rwy'n ei chynghori a'i hysbysu ynghylch amryw o bethau ond fel yr â ein gohebiaeth yn ei blaen, a chwrs gradd Martha yn gefnlen i hyn, datblyga hithau o fod yn ddarllenydd naif i fod yn ddarllenydd beirniadol sy'n ddigon parod i ddadlau'n ôl erbyn y diwedd!

